

Crynodeb gweithredol

1. Dyma ymateb y Llywodraeth i'r ymgynghoriad ar gynigion i ddiwygio'r Cynllun Ffioedd Graddedig i Adfocadau (AGFS), a gyhoeddwyd ar 31 Awst 2018 ac a ddaeth i ben ar 12 Hydref 2018. Cafodd y Llywodraeth 156 o ymatebion.
2. Ar 1 Ebrill 2018, yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus llawn, fe wnaeth y Llywodraeth weithredu Cynllun newydd ar gyfer Ffioedd Graddedig i Adfocadau. Dyma'r degfed fersiwn o'r Cynllun, neu'r hyn a elwir yn "Gynllun 10". Yn dilyn cyhoeddi ein hymateb i'r ymgynghoriad ar Gynllun 10, dywedodd ymarferwyr o'r holl broffesiynau eu bod yn bryderus fod y ffioedd yn y cynllun yn rhy isel i dalu'n iawn am y "gwaith sy'n cael ei wneud". Mae'r pryderon hyn wedi arwain at lawer o fargyfreithwyr, a rhai cyfreithwyr adfocad, i wrthod derbyn cyfarwyddiadau i weithio dan Gynllun 10.
3. Rydyn ni wedi gwrando'n ofalus ar y pryderon hyn, ac wedi lansio ymgynghoriad ar "Gynllun 11" arfaethedig ar 31 Awst 2018. Mae'r ymgynghoriad hwn yn nodi cynigion i ddyrannu £15m yn ychwanegol i'r cynllun, gan ddefnyddio data Cynllun 2016-17 ar lwyth achosion a gwariant fel y "llinell sylfaen" ar gyfer y newidiadau a gynigir. Drwy gyfres o gynnydd â thargedau yn y ffioedd, nod y Cynllun 11 arfaethedig oedd talu'n decach am y "gwaith sy'n cael ei wneud" gan adfocadau amddiffyn yn Llysoedd y Goron.
4. Er bod yr ymatebwyr, ar y cyfan, yn croesawu cynigion yr ymgynghoriad, teimlai'r ymatebwyr yn gyffredinol nad oedd y Cynllun 11 arfaethedig yn cyflawni'r amcan hwn. Roedd y pryderon yn canolbwyntio ar:
 - lefel y ffioedd yn y Cynllun 11 arfaethedig, yn enwedig ar gyfer adfocadau iau, ac roedd yr ymatebwyr yn galw am ragor o gynnydd yn y ffioedd;
 - y canfyddiad fod oedi wrth weithredu Cynllun 11, ac roedd y rhai y buwyd yn ymgynghori â nhw yn gofyn am iawndal i liniaru rhag effeithiau'r oedi;
 - strwythur y Cynllun 11 arfaethedig, ac roedd y rhai y buwyd yn ymgynghori â nhw yn cynnig nifer o newidiadau i bensaernïaeth waelodol y Cynllun Ffioedd Graddedig i Adfocadau; a'r
 - angen i gymhwyso ffioedd Cynllun 11 i achosion dan Gynllun 10.
5. Ar ôl mynd ati'n ofalus i ystyried pryderon y rhai y buwyd yn ymgynghori â nhw, rydyn ni am fwrw ymlaen â fersiwn diwygiedig o'r cynigion a nodwyd yn yr ymgynghoriad. I fynd i'r afael â phryderon am lefel y ffioedd, a'r oedi wrth eu gweithredu, rydyn ni'n:
 - gwario £8m pellach ar y cynllun o gymharu â'r "llinell sylfaen" sef data 2016-17, yn canolbwyntio ar dalu adfocadau iau yn well am y "gwaith a wnaed" ganddynt, gan ddod â'r cyfanswm a amcangyfrifir yn y gwariant ychwanegol ar y cynllun i ryw £23m yn fwy na'r gwariant gwirioneddol ar achosion 2016-17; a
 - achosi i'r cynnydd arfaethedig o 1% i'r holl ffioedd o fis Ebrill 2019 ymlaen gael ei ddwyn ymlaen i'r dyddiad pan fydd Cynllun 11 yn dod i rym, gan olygu y bydd adfocadau yn elwa o'r newid yn gynharach na fwriadwyd yn wreiddiol.

6. Er ein bod yn credu y bydd y newidiadau'n gymorth i ni gyflawni un o amcanion ein hymgyngoriad, sef talu'n deg am y "gwaith sy'n cael ei wneud", rydyn ni'n cydnabod nad yw'r newidiadau'n mynd i'r afael â'r pryderon ehangach.
7. O ran y pryderon am strwythur y Cynllun Ffioedd Graddedig i Adfocadau – yn ogystal â phryderon mwy cyffredinol am dalu am y "gwaith sy'n cael ei wneud" dan y cynllun – mae'r Llywodraeth yn cydnabod bod cyfle i wella rhagor ar y ffordd rydyn ni'n talu adfocadau amddiffyn Llysoedd y Goron er mwyn adlewyrchu'n well y gwaith maent yn ei wneud . Fodd bynnag, mae'r pryderon hyn yn gofyn am asesiad pellach, gan gynnwys casglu tystiolaeth a data newydd. Oherwydd hyn, byddwn ni'n ystyried y pryderon wrth adolygu'r cynllun.
8. Yn yr ymgynghoriad ym mis Awst, fe wnaethon ni nodi ein bwriad i ddechrau ar adolygiad o'r Cynllun Ffioedd Graddedig i Adfocadau rhwng 18 a 24 mis ar ôl i'r Bar roi gorau i weithredu ym mis Mehefin 2018. I newid y cynlluniau hyn, mae'r Llywodraeth nawr yn bwriadu dechrau ar adolygiad trawsbynciol o'r cynlluniau ffioedd cymorth cyfreithiol troseddol, gan ddechrau ym mis Ionawr. Mae hyn yn ymateb i bryderon y bobl y buwyd yn ymgynghori â nhw, adroddiadau diweddar Pwyllgor Dethol ar Gyfiawnder ar gymorth cymorth cyfreithiol troseddol a datgelu mewn achosion troseddol, adolygiad y Twrnai Cyffredinol o ddatgelu, a newidiadau ehangach ledled y system gyfiawnder, gan gynnwys y gwaith moderneiddio sy'n cael ei wneud gan y Swyddfa Gartref, Gwasanaeth Eryl y Goron a Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi. Mae'r Llywodraeth yn credu mai dyma'r amser i gynnal adolygiad cyfannol o'r cynlluniau ffioedd cymorth cyfreithiol troseddol.
9. Y cam cyntaf fydd cyfnod dylunio i bennu hyd a lled a diwyg yr adolygiad. Fel rhan o'r cyfnod dylunio, byddwn ni'n dechrau cael cysylltiad â'r proffesiynau. Byddwn ni hefyd yn mynd ati'n ofalus i ystyried y pryderon ehangach a godwyd yn yr ymgynghoriad am y Cynllun Ffioedd Graddedig i Adfocadau.
10. I ymateb i rai a oedd yn galw am gymhwyso ffioedd Cynllun 11 i achosion Cynllun 10, rydyn ni wedi ymgynghori ar y sail y bydd unrhyw benderfyniad i gael cymorth cyfreithiol troseddol ar ôl y dyddiad pryd daw'r rheoliadau newydd i rym yn cael y cynnydd yn y ffioedd. Mae hyn yn cyd-fynd â'r rheoliadau diwygio blaenorol ar y Cynllun Ffioedd Graddedig i Adfocadau a ddaeth i rym ar 1 Ebrill 2018. Mae'n arfer ers tro mai'r unig achosion lle mae'r cynlluniau ffioedd cymorth cyfreithiol troseddol yn gymwys yw achosion lle rhoddwyd Gorchymyn Cynrychiolaeth ar ôl i'r rheoliadau ddod i rym. Ar ôl ystyried barn y rhai y buwyd yn ymgynghori â nhw, rydyn ni'n dal o'r farn y dylid parhau â'r arfer.

Dyrannu £8m yn ychwanegol o wariant

11. I adlewyrchu pryderon y rhai y buwyd yn ymgynghori â nhw, rydyn ni'n canolbwyntio'r £8m o wariant ychwanegol ar gyfres o gynnydd pellach yn y ffioedd am waith sy'n cael ei wneud gan adfocadau mwy iau, yn rhai cyflogedig a hunangyflogedig. Mae crynodeb ar gael isod o'r cynnydd yn y ffioedd, ac mae rhagor o fanylion ar gael amdanynt yn Adrannau 2 i 6. Bydd yr holl ffioedd eraill yn parhau fel y maent yng nghynigion ein hymgyngoriad, ac mae rhestr gyflawn o'r holl newidiadau y mae'r Llywodraeth yn eu gwneud i'r Cynllun Ffioedd Graddedig i Adfocadau dan Gynllun 11 ar gael yn Atodiad 1.
12. Ar gyfer troseddau treisgar difrifol (categori 3), rydyn ni'n cynyddu'r ffioedd sylfaenol ar gyfer treialon, pledion euog, a threialon chwâl;
 - ym mand 3.3, 20% o gymharu â ffioedd Cynllun 10, yn hytrach na'r 1% a gynigiwyd yn yr ymgynghoriad (sy'n golygu, er enghraifft, fod ffi sylfaenol ar gyfer treial i

adfocad iau ar ei ben ei hun neu i adfocad iau dan arweiniad yn cynyddu o £1,000, sef y ffi dan Gynllun 10, i £1,200);

- ym mand 3.4, 13% o gymharu â ffioedd Cynllun 10, yn hytrach na'r 1% a gynigiwyd yn yr ymgynghoriad (sy'n golygu, er enghraifft, fod ffi treial sylfaenol ar gyfer adfocad iau ar ei ben ei hun neu adfocad iau dan arweiniad yn cynyddu o £750, sef y ffi dan Gynllun 10, i £850);
- ym mand 3.5, 25% o gymharu â'r ffioedd cyfredol, yn hytrach na'r 13% a gynigiwyd yn yr ymgynghoriad (sy'n golygu, er enghraifft, fod ffi sylfaenol ar gyfer treial i adfocad iau ar ei ben ei hun neu i adfocad iau dan arweiniad yn cynyddu o £600, sef y ffi dan Gynllun 10, i £750); ac
- yn ogystal â'r cynnydd hwn yn y ffioedd sylfaenol yng nghategori 2, rydyn ni hefyd yn aifandio achosion adran 20 o fand 3.5 i fand 3.4 (sy'n golygu, er enghraifft, fod y ffi sylfaenol ar gyfer treial i adfocad iau ar ei ben ei hun neu i adfocad iau dan arweiniad ac sy'n cymryd achos adran 20 yn cynyddu o £600, sef y ffi yng Nghynllun 10, i £850).

13. Ar gyfer troseddau rhywiol oedolion (categori 5), rydyn ni'n cynyddu'r ffioedd sylfaenol ar gyfer treialon, pledion euog, a threialon chwâl;

- ym mand 5.1, 6% o gymharu â ffioedd Cynllun 10, yn hytrach na'r 1% a gynigiwyd yn yr ymgynghoriad (sy'n golygu, er enghraifft, fod y ffi treial sylfaenol i adfocad iau arweiniol yn cynyddu o £2,700, sef y ffi dan Gynllun 10, i £2,850).

14. Ar gyfer achosion o fyrgleriaeth a lladrad (categori 11), rydyn ni'n cynyddu'r ffioedd sylfaenol ar gyfer treialon, pledion euog, a threialon chwâl:

- ym mand 11.1, 17% o gymharu â ffioedd Cynllun 10, yn hytrach na'r 1% a gynigiwyd yn yr ymgynghoriad (sy'n golygu, er enghraifft, fod ffi sylfaenol ar gyfer treial i adfocad iau ar ei ben ei hun neu i adfocad iau dan arweiniad yn cynyddu o £1,200, sef y ffi dan Gynllun 10, i £1,400); ac
- ym mand 11.2, 18% o gymharu â ffioedd Cynllun 10, yn hytrach na'r 12% sy'n cael ei gynnig yn yr ymgynghoriad (sy'n golygu, er enghraifft, fod ffi sylfaenol ar gyfer treial i adfocad iau ar ei ben ei hun neu i adfocad iau dan arweiniad yn cynyddu o £675, sef y ffi dan Gynllun 10, i £800).

15. Ar gyfer troseddau eraill yn erbyn y person (categori 13), rydyn ni'n cynyddu'r ffioedd sylfaenol ar gyfer treialon, pledion euog, a threialon chwâl:

- ym mand 13.1, 38% o gymharu â ffioedd Cynllun 10, yn hytrach na'r 13% sy'n cael ei gynnig yn yr ymgynghoriad (sy'n golygu, er enghraifft, fod ffi sylfaenol ar gyfer treial i adfocad iau ar ei ben ei hun neu i adfocad iau dan arweiniad yn cynyddu o £1,300, sef y ffi dan Gynllun 10, i £1,800).

16. Ar gyfer troseddau trefn gyhoeddus (categori 15), rydyn ni'n cynyddu'r ffioedd sylfaenol ar gyfer treialon, pledion euog, a threialon chwâl;

- yn achosion band 15.2, 87% o gymharu â ffioedd Cynllun 10, yn hytrach na'r 14% sy'n cael ei gynnig yn yr ymgynghoriad (sy'n golygu, er enghraifft, fod ffi sylfaenol ar gyfer treial i adfocad iau ar ei ben ei hun neu i adfocad iau dan arweiniad yn cynyddu o £750, sef y ffi dan Gynllun 10, i £1,400); ac

- yn achosion band 15.3, 42% o gymharu â ffioedd Cynllun 10, yn hytrach na'r 18% sy'n cael ei gynnig yn yr ymgynghoriad (sy'n golygu, er enghraifft, fod ffi sylfaenol ar gyfer treial i adfocad iau ar ei ben ei hun neu i adfocad iau dan arweiniad yn cynyddu o £600, sef y ffi dan Gynllun 10, i £850).

17. Ar gyfer achosion safonol (categori 17), rydyn ni'n:

- cynyddu'r ffioedd sylfaenol ar gyfer treialon, pledion euog, a threialon chwâl yn achosion band 17.1 32% o gymharu â ffioedd Cynllun 10, yn hytrach na'r 19% sy'n cael ei gynnig yn yr ymgynghoriad (sy'n golygu, er enghraifft, fod ffi sylfaenol ar gyfer treial i adfocad iau ar ei ben ei hun neu i adfocad iau dan arweiniad yn cynyddu o £550, sef y ffi dan Gynllun 10, i £725);
- cynyddu'r ffi adnewyddu ym mand 17.1 33% yn hytrach na'r 18% a gynigiwyd yn yr ymgynghoriad (sy'n golygu, er enghraifft, fod y ffi adnewyddu safonol i adfocad iau ar ei ben ei hun neu i adfocad iau dan arweiniad yn cynyddu o £300, sef y ffi dan Gynllun 10, i £400); ac
- ailfandio mwy na 40 o droseddau o fand 17.1 i fandiau uwch o fewn y cynllun, yn hytrach na dim ond pedwar fel y cynigiwyd yn yr ymgynghoriad, gan arwain at gynyddu'r ffioedd ar gyfer y troseddau hynny.

18. O ran newidiadau eraill i'r cynllun, rydyn ni'n:

- cynyddu'r ffioedd adnewyddu ym mandiau 3.5, 6.4, 6.5, 9.7, 11.2, a 15.3 i £400 i adlewyrchu'r cynnydd a nodir uchod yn ffi adnewyddu band 17.1, gan greu ffi adnewyddu isaf ar draws y cynllun, sef £400 (sy'n golygu, er enghraifft, fod y ffi adnewyddu band 6.5 i adfocad iau yn unig neu i adfocad iau dan arweiniad yn cynyddu o £325, sef y ffi dan Gynllun 10, i £400).
- adfer yr ymadrodd "anarferol iawn" i'r diffiniad o baratodau arbennig, gan gynyddu'r cyfle y bydd mwy o achosion pell o fewn band yn gymwys am daliad ychwanegol;
- cynyddu'r ffi ar gyfer trial aneffeithiol 27%, yn hytrach na'r 18% a gynigiwyd yn yr ymgynghoriad (sy'n golygu bod y ffi yn cynyddu o £300, sef y ffi dan Gynllun 10, i £380);
- cynyddu'r ffioedd ar gyfer apeliadau yn erbyn euogfarn 32%, yn hytrach na'r 21% a gynigiwyd yn yr ymgynghoriad (sy'n golygu, er enghraifft, fod y ffi i adfocad iau ar ei ben ei hun neu i adfocad iau dan arweiniad yn cynyddu o £250, sef y ffi yng Nghynllun 10, i £330);
- cynyddu'r ffi sefydlog ar gyfer achosion a ddewiswyd yn peidio â bwrw ymlaen 88%, yn hytrach na'r 1% a gynigiwyd yn yr ymgynghoriad (sy'n golygu cynnydd o £194, sef y ffi dan Gynllun 10, i £365);
- cynyddu'r ffi ar gyfer apeliadau yn erbyn dedfryd 67%, yn hytrach na'r 1% a gynigiwyd yn yr ymgynghoriad (sy'n golygu, er enghraifft, fod y ffi i adfocad iau ar ei ben ei hun neu i adfocad iau dan arweiniad yn cynyddu o £150, sef y ffi dan Gynllun 10, i £250);

Y camau nesaf

19. Bydd y Llywodraeth yn gosod Offeryn Statudol gerbron y Senedd heddiw (10 Rhagfyr) er mwyn dod â'r cynllun newydd i rym. Ar y sail hon, rydyn ni'n rhagweld y bydd y cynllun newydd yn dod i rym ar 31 Rhagfyr 2018.

Strwythur yr ymateb

20. Mae gweddill y papur hwn wedi'i drefnu'n chwe adran. Rhagarweiniad sydd yn *Adran Un*. Mae'n rhoi crynodeb o'r papur ymgynghori a gyhoeddwyd ym mis Awst, y prif themâu sy'n codi yn yr ymatebion, a barn y Llywodraeth yn gyffredinol.
21. Mae *Adran Dau* yn delio â chwestiynau 1 i 3 o'r ymgynghoriad (ffioedd mewn categorïau penodol o droseddau), mae *Adran Tri* yn delio â chwestiynau 4 i 8 (ffioedd ar gyfer adfocadau iau), ac mae *Adran Pedwar* yn delio â chwestiwn 9 (cynyddu pob ffi 1%).
22. Mae *Adran Pump* yn delio â chwestiwn 10 (y pecyn cyffredinol o newidiadau). Mae'r adran hon yn ystyried pryderon ehangach y rhai y buwyd yn ymgynghori â nhw, gan gynnwys pryderon am strwythur gwaelodol y Cynllun presennol ar gyfer Ffioedd Graddedig i Adfocadau y byddwn ni'n ceisio eu cynnwys wrth adolygu'r cynllun ffioedd cymorth cyfreithiol troseddol. I gloi, mae *Adran Chwech* yn ystyried cwestiynau 11 i 13 (cydraddoldebau).